## Am y Gynghrair Cefn Gwlad

Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad wedi bod yn sefydliad ymgyrchu uchel ei barch ac effeithiol yn y Senedd ers ei sefydlu. Rydym wedi gweithio'n adeiladol gydag Aelodau'r Senedd o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, gan adeiladu enw da cryf yn seiliedig ar ymddiriedaeth, arbenigedd a chydweithio.

Wrth baratoi'r maniffesto hwn cynhaliom arolwg o'n haelodau a'n cefnogwyr ledled Cymru i nodi eu blaenoriaethau ar gyfer cymunedau gwledig a'r camau y maent yn eu disgwyl gan lywodraeth nesaf Cymru. Mae'r mewnwelediadau a gasglwyd wedi llywio'r argymhellion a'r polisïau a nodir yn y maniffesto hwn.

Mae ein gwaith wedi cynnwys darparu sesiynau briffio ysgrifenedig a llafar, cyfrannu at ymgynghoriadau, cynnal digwyddiadau llwyddiannus yn y Senedd a chymryd rhan mewn gweithgorau sydd wedi helpu i lunio polisi.

Ni yw'r unig sefydliad aelodaeth sy'n ymgyrchu ar draws yr holl faterion gwledig, gan gynnwys materion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol a chymunedol. Mae gan ein tîm yng Nghymru a Llundain flynyddoedd lawer o brofiad mewn ymgyrchu i amddiffyn y ffordd wledig o fyw drwy ymgysylltu gwleidydl do, yn y cyfryngau ac ar lawr gwlad.

P'un a fyddwch yn cynrychioli etholaeth drefol neu wledig, mae cefn gwlad ffyniannus, gwydn ac economaidd gynaliadwy o fudd i bawb. Mae cyflawni hyn yn dibynnu ar bolisïau sy'n cael eu diogelu gan brofiad ymarferol. Rydym yn barod i weithio gyda chi i wneud hynny.




**Cyswllt**

Rachel Evans, Cyfarwyddwr Cymru

**E-bost:** Rachel-evans@countryside-alliance.org

**Gwefan:** www.countryside-alliance.org

Countryside Alliance

Hyrwyddwyd gan Y Gynghrair Cefn Gwlad, China Works, 100 Black Prince Road, Llundain ©Y Gynghrair Cefn Gwlad 2026

Countryside Alliance

# HYRWYDDO EIN CEFN GWLAD

## Etholiad y Senedd 2026

# Cyflwyniad

Mae Cymru'n wlad gyda chefn gwlad syfrdanol, cynhyrchwyr bwyd a diod o'r radd flaenaf a mwy o gestyll fesul milltir sgwâr nag unrhyw wlad arall yn y byd. Mae ein cefn gwlad yn sail i'n sector twristiaeth, yn darparu lle i hamddena, yn cyflenwi ein bwyd ac yn cefnogi miloedd o fywoliaethau. Mae hyn i gyd yn golygu ein bod yn mynnu llawer gan ein hadnoddau naturiol ac mae gennym ddyletswydd i reoli'r adnoddau hynny'n ddoeth.

Mae gan lywodraeth nesaf Cymru gyfle i ddatgloi potensial llawn cefn gwlad drwy hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer twf, meithrin arloesedd ac annog newid diwylliannol mewn llunio polisïau. Rhaid i bob polisi, o fynd i'r afael â throseddu i reoli tir, fod yn gytbwys, wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn, parchu barn cymunedau a diogelu cefn gwlad.

"Yn ôl pob tebyg, cefn gwlad Cymru yw ased mwyaf Cymru"

(Ymatebydd, arolwg maniffesto Cymru)



Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru wledig wedi wynebu pwysau cynyddol a chystadleuol ar ddefnydd tir. Mae ardaloedd mawr o dir fferm cynhyrchiol wedi cael eu colli yn enw atafaelu carbon, gan greu pryder dwfn mewn cymunedau gwledig. Mae cwmnïau o'r tu allan i Gymru wedi rhuthro i brynu tir fferm er mwyn plannu coed i wrthbwyso eu hallyriadau carbon heb fawr o sylw i'r effaith y mae hyn yn ei chael ar dreftadaeth, diwylliant, y Gymraeg a chynhyrchu bwyd. Mae perygl y bydd y dull hwn yn tanseilio'r union gymunedau sydd wedi ffurfio a chynnal cefn gwlad ers cenedlaethau.

**Dywedodd 98% o'r ymatebwyr nad yw Llywodraeth Cymru yn deall nac yn cynrychioli anghenion Cymru wledig**

**(Ymatebwyr i arolwg maniffesto Cymru)**

Ar yr un pryd mae Cymru'n profi ehangiad cyflym o ran datblygiad ynni gwyrdd. Er bod gan ynni adnewyddadwy rôl bwysig i'w chwarae, mae'r rhuthr presennol am dir sydd ei angen ar gyfer seilwaith, o baneli solar i beilonau, yn disodli ffermio da byw traddodiadol ac yn ail-lunio tirweddau heb ganiatâd digonol gan gymunedau na chynllunio strategol. Rhaid i gynnydd amgylcheddol beidio â dod ar draul bywoliaeth wledig, diogelwch bwyd na hunaniaeth ddiwylliannol.

"Ymddengys bod cymunedau gwledig yn cael eu tangynrychioli yng Nghaerdydd trefol-ganolog"

(Ymatebydd, arolwg maniffesto Cymreig)

Mae Cymru wledig yn ased cenedlaethol a dylid ei thrin felly. Mae angen i Aelodau'r Senedd ddeall, gwerthfawrogi a hyrwyddo cyfraniad ac ymrwymiad ein ffermwyr, ein ciperiaid a'n ghillies. Bydd hyn yn eu galluogi i barhau i weithredu'n gynaliadwy gyda'r adnoddau sydd eisoes ar gael ac ateb yr heriau y bydd Cymru wledig sy'n parhau i newid yn eu hwynebu. Mae perygl y bydd y dull hwn yn tanseilio'r union gymunedau sydd wedi ffurfio a chynnal cefn gwlad ers cenedlaethau.

**Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i hyrwyddo, amddiffyn a meithrin ffyniant yng nghefn gwlad.**



**Dyma'r tri phrif fater sy'n pryderu'r rheiny sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad:**

- **79%** — **Bwyd a ffermio**
- **65%** — **Rheoli tir a defnydd tir**
- **65%** — **Yr economi wledig a swyddi**

(Ymatebwyr i arolwg maniffesto Cymru)

**Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru ddarparu atebion i ddatgloi potensial llawn cefn gwlad drwy:**

- Sefydlu Hyrwyddwr Cefn Gwlad dynodedig i fod yn gyswllt rhwng cymunedau gwledig a'r llywodraeth, gan sicrhau bod pryderon gwledig yn cael eu hystyried a'u hintegreiddio mewn penderfyniadau polisi cenedlaethol.
- Cyhoeddi Asesiad Effaith ar Gymunedau Gwledig (RCIA) pan fydd polisi, datblygiad neu brosiect arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar gymunedau gwledig.
- Creu Adroddiad blynyddol ar Gyflwr Cefn Gwlad Cymru i ddarparu mewnwelediadau cyfredol, yn seiliedig ar ddata i iechyd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ardaloedd gwledig i lywio datblygu polisi a chodi ymwybyddiaeth o faterion gwledig.

# Cymunedau gwledig ffyniannus

Mae un o bob tri o bobl Cymru yn byw mewn ardal wledig. Mae cymunedau gwledig ffyniannus yn hanfodol i economi'r genedl, diogelwch bwyd, treftadaeth ddiwylliannol a lles. Er mwyn eu cefnogi, rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu polisïau sy'n gweithio dros gefn gwlad, nid yn ei erbyn. Dylai pob polisi ddiogelu cefn gwlad fel nad yw cymunedau dan anfantais yn sgil un ateb sy'n addas i bawb.

Mae trigolion mewn trefi a phentrefi gwledig yn aml heb fynediad at wasanaethau ac amwynderau sylfaenol. Mae pobl yn aml yn teithio pellteroedd hir ar gyfer gofal iechyd, bancio a siopa hanfodol, tra'n talu costau uwch am danwydd a thrafnidiaeth. Mae'r pwysau hyn yn rhoi baich ariannol a chymdeithasol anghymesur ar aelwydydd gwledig, gan beryglu gwagio cymunedau oni bai yr eir i'r afael â nhw.

Mae troseddau gwledig yn bryder cynyddol. Canfu arolwg diweddar gan y Gynghrair Cefn Gwlad nad oedd 32% o droseddau yn cael eu hadrodd, gan fod dioddefwyr yn teimlo na fyddai unrhyw beth yn cael ei wneud neu na fyddent yn cael eu cymryd o ddifrif. Mae troseddau fel dwyn peiriannau amaethyddol, dwyn da byw a thipio anghyfreithlon yn aml yn cael eu trin fel blaenoriaeth isel, er gwaethaf eu heffaith sylweddol. Mae plismona gwledig da yn golygu mwy na niferoedd, mae'n mynnu gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â'r problemau hyn yn effeithiol.

> "Mae gan Gymru gyfleoedd gwych ar gyfer hamdden a thwristiaeth, mae ganddi hefyd botensial enfawr ar gyfer cynhyrchu bwyd pe bai mwy o gymorth yn cael ei gynnig yn yr ardaloedd hyn"
>
> (Ymatebydd, arolwg maniffesto Cymreig)

Mae twristiaeth yn hanfodol i Gymru wledig. Gyda thraethau baner las, tirnodau hanesyddol, tirweddau trawiadol, bwyd a llety o'r radd flaenaf, mae ardaloedd gwledig yn brif gyrchfannau ar gyfer gwyliau gartref ac ymwelwyr rhyngwladol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi'r diwydiant hwn a'i alluogi i ffynnu drwy gydol y flwyddyn, nid creu rhwystrau i'w ffyniant.

Mae gweithgareddau gwledig yn gwneud cyfraniad economaidd sylweddol. Mae saethu yn cynhyrchu £60 miliwn i'r economi wledig ac yn cynnal masnach ar gyfer tafarndai a gwestai gwledig yn ystod misoedd tawelach y gaeaf. Mae cyfranogiad pysgota yn cynyddu, gyda chynnydd o 6% mewn gwerthiannau trwyddedau gwialen yn 2025 o'i gymharu â 2024, ac mae ei fanteision iechyd a lles yn hysbys iawn. Byddai cefnogaeth dargedig gan y llywodraeth yn cynnal a thyfu'r cyfraniadau hyn, gan helpu cymunedau gwledig i ffynnu.

> "Mae costau byw a phrisiau tanwydd cynyddol yn broblemau mawr sy'n wynebu Cymru wledig"
>
> (Ymatebydd, arolwg maniffesto Cymru)







**Canfu arolwg troseddau gwledig y Gynghrair Cefn Gwlad nad oedd 32% o droseddau gwledig yn cael eu hadrodd i'r heddlu**

**Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i:**

- Sicrhau bod polisïau'n diogelu cefn gwlad fel nad yw cymunedau gwledig dan anfantais gan bolisi un ateb sy'n addas i bawb.
- Gweithio gyda'r heddlu, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod troseddau gwledig yn cael eu cymryd o ddifrif a bod yr effeithiau y maent yn eu cael ar gymunedau gwledig yn cael eu deall a'u datrys.
- Diogelu a chynnal gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys gofal iechyd lleol, bancio, trafnidiaeth a gwasanaethau post.
- Datblygu strategaeth dwristiaeth 365 diwrnod y flwyddyn, gan gydnabod gwerth gweithgareddau gwledig a chefnogi sefydliadau lletygarwch trwy gydol y flwyddyn.
- Lleihau cyfraddau busnes mewn trefi a phentrefi gwledig, gan helpu busnesau bach i oroesi a thyfu yng nghanol eu cymunedau.

# Rheoli defnydd tir

Mae mynediad i gefn gwlad yn hanfodol ar gyfer iechyd, lles a'r economi wledig. Rhaid i fyrddau iechyd cyhoeddus a'r sector iechyd ehangach weithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir i ddatgloi potensial Cymru wledig, gan hyrwyddo gweithgarwch yn yr awyr agored i bobl o bob oedran. Mae cyflawni hyn yn gofyn am bolisïau defnydd tir sy'n cydbwyso uchelgais amgylcheddol â chynhyrchu bwyd, anghenion cymunedol a chynaliadwyedd hirdymor.

"Ystyrir bod ffermwyr yn geidwaid cefn gwlad; dylid eu helpu i ofalu amdano drwy gadwraeth bywyd gwyllt a rheoli tir yn amddiffynnol"

(Ymatebydd, arolwg maniffesto Cymru)

Ac eto, mae defnydd tir yng Nghymru yn cael ei ffurfio fwyfwy gan fuddiannau allanol a pholisïau tymor byr. Mae tir fferm cynhyrchiol yn cael ei golli i gwmnïau, a hyd yn oed Llywodraeth Cymru, yn plannu coed ar gyfer gwrthbwyso carbon. Er bod cyfrifoldeb amgylcheddol yn hanfodol, mae tynnu tir o gynhyrchu bwyd yn tanseilio bywoliaeth ffermio ac yn bygwth diogelwch bwyd. Ni all gwir gynaliadwyedd ddod ar draul gwytnwch gwledig neu wead diwylliannol ein tirweddau.

**Caiff dros 90% o arwynebedd tir Cymru ei ffermio**

Mae'r trawsnewid i ynni glanach yn ychwanegu pwysau pellach. Mae ffermydd solar a batri ar raddfa fawr yn cael eu lleoli ar dir cynhyrchiol, tra bod dewisiadau amgen fel toeau, safleoedd tir llwyd ac ystadau diwydiannol yn aml yn cael eu hanwybyddu. Mae seilwaith ynni yn aml yn cael ei orfodi ar gymunedau, gan flaenoriaethu cost dros dirwedd, uniondeb amgylcheddol hirdymor ac anghenion lleol.

Mae dull cytbwys yn hanfodol, un sy'n diogelu cynhyrchu bwyd, yn grymuso cymunedau lleol, yn gwella mynediad i gefn gwlad ac yn darparu manteision amgylcheddol heb danseilio bywoliaeth wledig. Rhaid i Gymru wledig fod yn bartner mewn trawsnewidiadau amgylcheddol ac ynni ac nid parth aberthu.

"Un o'r bygythiadau mwyaf i'n cefn gwlad yw ecsbloetio ein tirwedd er budd masnachol drwy ynni adnewyddadwy"

(Ymatebydd, arolwg maniffesto Cymru)





**Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i:**

- Hyrwyddo mynediad cyfrifol i gefn gwlad, gan feithrin cysylltiadau iach â natur a'r awyr agored.
- Gwarantu cymorth ariannol hirdymor i ffermwyr, gan flaenoriaethu cynhyrchu bwyd tra'n gwobrwyo ffermwyr a rheolwyr tir am ddarparu nwyddau cyhoeddus cymdeithasol ac amgylcheddol.
- Cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy llai wedi'u harwain gan gymunedau a diogelu tir cynhyrchiol drwy fabwysiadu polisi "Toeau yn Gyntaf" ar gyfer datblygiadau solar yng Nghymru.
- Gosod terfynau cynllunio ar faint a graddfa datblygiadau ffermydd gwynt, gan sicrhau bod prosiectau'n gymesur, wedi'u lleoli'n briodol ac nad ydynt yn peryglu tir fferm cynhyrchiol neu gymunedau gwledig.
- Cyflwyno ardoll gymunedol ar gyfer plannu coed ar raddfa fawr sy'n pasio'r prawf RCIA a fyddai'n cael ei dychwelyd i'r gymuned ar gyfer addysg a lles.

# Rheoli ein cefn gwlad

Mae cefn gwlad Cymru yn dirwedd waith a ffurfiwyd gan bobl dros ganrifoedd. Mae rheoli bywyd gwyllt yn effeithiol yn hanfodol i gynnal poblogaethau iach o anifeiliaid gwyllt, amddiffyn cynefinoedd, cefnogi bioamrywiaeth a chynnal cynhyrchu bwyd. Hebddo, mae rhywogaethau bregus, ecosystemau a bywoliaethau ffermwyr a thirfeddianwyr mewn perygl.

"Mae angen canolbwyntio ar y dirwedd gyfan, gan gynnwys hanes a threftadaeth, bywyd gwyllt ac estheteg. Ni fydd yr un o'r rhain ar ei ben ei hun yn ddigon cryf, mae angen i ni feddwl am y dirwedd fel ecosystem swyddogaethol"

(Ymatebydd, arolwg maniffesto Cymru)

Mae rheoli bywyd gwyllt yn gweithio orau pan gaiff ei gyflwyno gan ffermwyr, ciperiaid a rheolwyr tir gan ddefnyddio dulliau sy'n briodol i amgylchiadau lleol. Mae rheoli bywyd gwyllt yn briodol yn alinio â lles anifeiliaid, gyda thystiolaeth yn dangos bod ymyriadau wedi'u rheoli'n dda yn aml yn hanfodol i amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau. Mae rheoli ceirw yn caniatáu adfywio naturiol a sefydlu coetir newydd. Mae rheoli cadnoid a brain yn amddiffyn rhywogaethau dan fygythiad, ac mae dileu rhywogaethau goresgynnol fel minc a gwiwerod llwyd yn gwarchod ein cefn gwlad. Mae cyfyngiadau ar reoli bywyd gwyllt yn bygwth rhywogaethau, cynefinoedd, bioamrywiaeth a diogelwch bwyd.

Mae mynediad at gefn gwlad yn cyflwyno manteision mawr i iechyd, lles a chysylltiad â natur. Er bod pwysau ar dirfeddianwyr i ddarparu tir a dŵr ar gyfer hamdden wedi cynyddu, rhaid i fynediad barhau i fod yn wirfoddol, yn seiliedig ar wobrau ac wedi'i integreiddio i gynlluniau cymorth amaethyddol. Mae cefn gwlad i bawb ond mae mynediad wedi'i reoli yn sicrhau bod cynefinoedd a bywyd gwyllt agored i niwed yn cael eu gwarchod ac nad yw cynhyrchu bwyd yn cael ei beryglu.

Rhaid i bolisïau ar reoli bywyd gwyllt a chefn gwlad gael eu llywio gan dystiolaeth, nid ideoleg. Gall ymgyrchoedd sy'n cael eu gyrru gan agenda hawliau anifeiliaid, yn hytrach na lles anifeiliaid yn seiliedig ar wyddoniaeth, rwystro rheolaeth effeithiol a niweidio bywyd gwyllt, yr amgylchedd a chymunedau. Rhaid i Lywodraeth Cymru arddel agwedd egwyddorol, sy'n cael ei harwain gan wyddoniaeth, gan wrthsefyll pwysau deisebau neu arolygon barn, a gweithredu er budd cadwraeth, cymunedau gwledig, a chynhyrchu bwyd cynaliadwy.

"Dylai'r llywodraeth weithio gyda rheolwyr tir/ystadau a ffermwyr, dyma'r bobl sy'n gwarchod ein cefn gwlad a'n bywyd gwyllt"

(Ymatebydd, arolwg maniffesto Cymru)





**Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i:**

- Mabwysiadu dull cyson, egwyddorol yn seiliedig ar dystiolaeth i reoli bywyd gwyllt, lles anifeiliaid a diogelu cynefinoedd ar draws pob rhywogaeth.
- Cefnogi a chydnabod pwysigrwydd rheoli bywyd gwyllt a gwerth helfeydd, saethu a physgotwyr i economi wledig Cymru.
- Datblygu polisïau rheoli amgylcheddol a bywyd gwyllt, gan weithio gyda rhanddeiliaid ac ymarferwyr, fel ffermwyr a chiperiaid, er budd planhigion ac anifeiliaid Cymru.
- Blaenoriaethu cynnyrch Cymru mewn caffael sector cyhoeddus, fel sicrhau bod prydau ysgol yn cefnogi ffermio lleol, cynnal safonau lles anifeiliaid ac amgylcheddol uchel.
- Adolygu a chryfhau Strategaeth Rheoli Ceirw Cymru, gan sicrhau ei bod yn cefnogi adfywio coetiroedd, bioamrywiaeth a defnydd tir cynaliadwy.

# Cynaeafu ein cefn gwlad

Mae ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd Cymru yn darparu cynnyrch o'r radd flaenaf sy'n cael ei fwynhau gartref a thramor, gan hefyd reoli a gwella ein cefn gwlad prydferth.

Mae arnom angen Llywodraeth Cymru sydd nid yn unig yn hyrwyddo ffermwyr ond yn gweithio gyda nhw dros y blynyddoedd nesaf o bontio, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gynhyrchiol ac yn gystadleuol ar raddfa fyd-eang. Rhaid i gynhyrchu bwyd a stiwardiaeth amgylcheddol fynd law yn llaw, wedi'u seilio ar realiti ffermio ymarferol.

Mae sector bwyd a diod Cymru yn arloesol iawn ac yn elwa ar hunaniaeth ddaearyddol gref. Mae cynhyrchwyr fel Gwinllan Velfrey yn Sir Benfro yn enghraifft o'r potensial i integreiddio'r sector mewn strategaeth dwristiaeth genedlaethol. Gallai llwybrau bwyd fynd â phobl ar daith gyfoethog ledled Cymru, gan gryfhau economïau gwledig wrth adeiladu "Brand Cymru," gan gysylltu cynhyrchu bwyd a thwristiaeth i wneud y mwyaf o botensial economaidd.

Mae caffael bwyd yn y sector cyhoeddus yn parhau'n gyfle sy'n cael ei golli. Er gwaethaf sylfaen ffermio gref Cymru, mae cyrff fel awdurdodau lleol yn cyrchu gyfeintiau mawr o gig o dramor. Canfu ymchwil y Gynghrair Cefn Gwlad i gaffael cyw iâr mewn ysgolion fod 99.35% o gyw iâr wedi'i rewi a weinir mewn ysgolion ym Merthyr Tudful yn dod o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys Gwlad Thai. Mae hyn yn tanseilio ffermwyr Cymru ac yn bygwth ein diogelwch bwyd.

Mae potensial cynyddol hefyd mewn cynaeafu helgig, sy'n rhoi cymhellion ariannol ac ysgogiad i ffermwyr a thirfeddianwyr gynnal cynefinoedd bregus a ffyniannus. Mae ehangu'r sector cig hela yng Nghymru yn gofyn am fuddsoddiad targedig. Rhaid i'r llywodraeth gefnogi'r seilwaith sydd ei angen i ddatgloi ei photensial amgylcheddol ac economaidd llawn, gan alluogi anifeiliaid hela Cymru i gystadlu â gweddill y DU.

"Blaenoriaethu caffael bwyd lleol i leihau milltiroedd bwyd, lleihau allyriadau a chefnogi cynhyrchu bwyd lleol"

(Ymatebydd, arolwg maniffesto Cymreig)

"Mae angen i ni hyrwyddo bwydydd o'r sector helgig yn rhai iach a chynaliadwy"

(Ymatebydd, arolwg maniffesto Cymreig)





"Yr her fwyaf i ffermwyr Cymru yw cael eu galluogi i gynhyrchu bwyd mewn symiau digonol ar gyfer gwarchod diogelwch bwyd"

(Ymatebydd, arolwg maniffesto Cymreig)

**Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i:**

- Adeiladu ar "Brand Cymru" drwy barhau i fuddsoddi mewn hyrwyddo bwyd a diod Cymreig o'r radd flaenaf gartref a thramor.
- Datblygu strategaeth twristiaeth bwyd ddynodedig sy'n creu llwybrau a phrofiadau bwyd sy'n cysylltu cynhyrchu bwyd, lletygarwch a thwristiaeth wledig, cryfhau economïau gwledig ac arddangos cynnyrch Cymreig.
- Ehangu a hyrwyddo sector helgig Cymru, gyda chefnogaeth strategaeth farchnata sy'n tynnu sylw at ei fanteision cadwraeth, amgylcheddol ac economaidd.
- Blaenoriaethu cynnyrch Cymreig mewn caffael yn y sector cyhoeddus gan sicrhau bod prydau ysgol yn cefnogi ffermwyr lleol, gan gynnal safonau lles anifeiliaid ac amgylcheddol uchel.
- Cyflwyno tryloywder ac adrodd ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus gan ei gwneud yn glir ble mae bwyd yn cael ei gynhyrchu, fel y gall rhieni, trethdalwyr a llunwyr polisi weld bod arian cyhoeddus yn cefnogi economi Cymru.